Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.13 Treuliau gwirfoddolwyr

Mae ad-daliad treuliau yn fater cyfle cyfartal. Mae'r ymchwil a wnaed i mewn i hen bobl a gwirfoddolwyr rai blynyddoedd yn ôl wedi darganfod mai'r rhwystr pennaf i gymryd rhan oedd diffyg taliadau ar gyfer mân dreuliau. Mae'n werth cofio bod gwirfoddolwyr yn rhoi anrheg amser - anrheg sydd â gwerth ariannol sylweddol. Nid oes disgwyl iddynt beidio cael eu talu yn ogystal. Dylid cynnig treuliau i wirfoddolwyr, hyd yn oed os ydynt yn dewis peidio'u derbyn. Dylai'r dulliau ar gyfer hawlio treuliau fod yn ddidrafferth.

Treth a materion cyfreithiol

Yn y DU mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) a'r Adran Nawdd Cymdeithasol yn cydnabod y canlynol fel treuliau dilys i wirfoddolwyr:

- teithio yn ôl a blaen o'r fan lle mae'r gweithgaredd gwirfoddol yn digwydd
- teithio yn ystod y gwirfoddoli
- prydau bwyd a geir yn ystod y gwirfoddoli (ystyrir bod hyd at £5 yn rhesymol)
- costau postio a ffonio
- gofal plant a dibynyddion eraill yn ystod oriau'r gwaith gwirfoddol
- cost dillad amddiffynnol neu arbennig

Mae'n iawn i roi terfyn synhwyrol ar rai treuliau er mwyn osgoi'r digwyddiad annhebygol fod gwirfoddolwr yn archebu têc a siampên i ginio a chyflwyno'r dderbynneb i'r tîm cyllid! Ond byddwch yn siŵr o osod y terfyn ar lefel sy'n galluogi'r gwirfoddolwyr i gael pryd o fwyd a diod mewn tai bwyta lleol - mae hyd at £5 yn rhesymol.

Mae hefyd yn rhesymol i ofyn i'r gwirfoddolwyr i ddod mewn ar y ffordd rataf o drafnidiaeth gyhoeddus. Ond cofiwch y bydd hi'n angenrheidiol i rai gwirfoddolwyr ddefnyddio tacsi - oherwydd anabledd, er enghraifft, felly ceisiwch fod yn hyblyg a gwnewch gyllid ar gyfer costau ychwanegol.

Mae'r HMRC a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn hapus cyn belled â bod y treuliau a delir i'r gwirfoddolwr yn cynrychioli'r costau gwirioneddol a wynebir a'u bod ar gyfradd 'resymol', e.e. mae'n rhaid i gyfraddau'r filltir fod o fewn cyfyngiadau HMRC. Gosodir y rhain ar lefel sy'n cymryd i ystyriaeth costau dibrisio a chostau eraill megis tanwydd.

Dyma **gyfraddau milltiredd cymeradwy** HMRC ar gyfer 2006 - 2007:

Ceir a faniau	40c y filltir am y 10,000 milltir gyntaf, 25c y filltir dros 10,000
Beiciau Modur	24c y filltir
Beiciau	20c y filltir

Dylid cyflwyno derbynebau, tocynnau trên neu fws fel tystiolaeth o wariant. Mae bellach yn bosibl i wirfoddolwyr gael eu talu ymlaen llaw ar gyfer gwariant a ragwelir cyn belled bod tystiolaeth briodol o'r gwariant yn cael ei chyflwyno wedyn.

Fel arfer ni ddylid talu swm penodol i dalu treuliau gwirfoddolwyr e.e. lwfans cinio o £2 y dydd. Ni ddylai mudiadau ychwaith gael eu temtio i dalu mwy na'r swm dyledus gan y gallai hyn beryglu unrhyw fudd-daliadau y mae gwirfoddolwyr yn eu derbyn, a gall arwain at sefyllfa lle gallai HMRC hawlio treth oddi arnynt.

Dylid ystyried taliadau treuliau sydd yn fwy na chostau gwir y gwirfoddolwyr fel taliad am y gwaith a wnaethpwyd ganddynt. Ystyrir hwn fel cytundeb gan dribiwnlys neu gorff tebyg, yn rhoi i'r gwirfoddolwyr yr un hawliau a gweithwyr neu gyflogwyr - gan gynnwys y cyflog lleiafswm cenedlaethol.

Mae rhai mudiadau yn ceisio osgoi'r problemau uchod drwy gyfeirio at daliadau gwirfoddolwyr fel 'honoraria'. Tra bod HMRC yn derbyn taliadau unigol fel rhoddion di-dreth, gall taliadau o'r fath effeithio ar fudd-daliadau. Os disgwylir yr honorariwm mewn unrhyw ffordd, gall gael ei ystyried fel taliad ar gyfer gwasanaeth, ac felly'n effeithio ar statws cyfreithiol y gwirfoddolwyr.

Beth bynnag, hyd yn oed ar gyfer dibenion treth, dylai honorariwm fod yn daliad unigol dilys fel 'diolch'. Os yw hyn yn ddisgwyliedig, neu yn awgrymedig neu yn cael ei roi'n rheolaidd, bydd yn cael ei drin fel unrhyw incwm trethadwy arall.

Polisi treuliau

Bydd polisi treuliau ysgrifenedig yn sicrhau bod eich gwirfoddolwyr yn gwybod beth yw eu hawliau parthed treuliau yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer eu hawlio.

Gall hyn gynnwys:

- Pa gostau yn union y gellir neu na ellir eu hawlio, a pha gyfradd a delir
- Yr hyn a ellir neu na ellir ei hawlio ar ran cleient lle mae'r gwirfoddoli yn cynnwys cyfeillio, ymweld neu deithiau i weithgareddau cymdeithasol
- Y drefn ar gyfer hawlio, h.y. pa bryd, ar ba ffurflenni a pha gofnodion neu dderbynebau sydd angen eu cyflwyno i wneud cais
- Yr hyn sy'n digwydd ar ôl hawlio, a'r dull talu - arian parod, siec, yn syth i gyfrif banc.
- yr hyn a ddigwydd os gwneir hawliad twyllodrus.
- Sut y byddwch yn cefnogi gwirfoddolwyr sydd angen cymorth i lenwi'r ffurflenni

Gwybodaeth bellach

Adran Gwaith a Phensiynau
Ffôn: 020 7712 2171
www.dwp.gov.uk

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
www.hmrc.gov.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:11/04/2007

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk